

Tiwtor Dysgu Cymraeg i Oedolion - Campws Pont-y-pŵl

School:	Coleg Gwent	Posted:	8th May 2019
Location:	Newport, Newport	Expires:	25th May 2019
Contract Term:	Permanent		12:00 AM
Salary:	£20,021 - £36,637	Start Date:	As soon as possible
Hours:	Full Time	Job ID:	1046635
		Job Reference:	0419015



Coleg Gwent

Tiwtor Dysgu Cymraeg i Oedolion

Oriau: 37 awr yr wythnos

- Cyflog: £20,021 - £36,637 y flwyddyn
- Cytundeb: Llawn Amser a Pharhaol
- Campws Pont-y-pŵl

Ydych chi'n chwilio am her newydd, yn mwynhau dysgu neu yn chwilio am gyfeiriad newydd? Os felly, mae Dysgu Cymraeg Gwent eisiau clywed gennych. Mae Dysgu Cymraeg Gwent yn darparu gwersi Cymraeg i Oedolion o fewn y sir. Wrth ymateb i'r cynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion sydd yn dymuno dysgu'r iaith yn yr ardal hon, rydym yn awyddus i benodi tiwtor llawn amser i'n helpu i ymateb i'r her. Ydych chi eisiau bod yn rhan o dîm brwdfrydig sy'n ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dysgu Cymraeg rhagorol yn ardal Gwent?

Os felly, beth am gyflwyno cais i ymuno â'n tîm?

Fel rhan o'r tîm, disgwylir i chi ddarparu gwersi Cymraeg i Oedolion o ansawdd eithriadol o uchel. Mae natur y cyrsiau yn amrywio, ond disgwylir i chi fod yn gyfrifol am rai cyrsiau dwys yn ogystal â chysiau 2/3 awr yr wythnos. Darperir gwersi ar bob lefel hyd at lefel Hyfedredd ar gyfer dysgwyr hynod brofiadol a darperir cyrsiau ac adnoddau ar eich cyfer.

Fe'ch cefnogir gan dîm broffesiynol a phrofiadol o staff a leolir ar Gampws Pont-y-pŵl, Coleg Gwent.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr profiadol sydd yn meddu ar gymhwyster dysgu TAR, er nad yw hwn yn hanfodol, a byddwn yn ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr di-brofiad hefyd. Os nad oes TAR gennych, disgwylir i chi ennill naill ai TAR neu Gymhwyster Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion o fewn 3 blynedd o'ch penodiad. Darperir hyfforddiant cyflawn yn ôl yr angen.

Yn ogystal, ystyrir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn dymuno gweithio yn ffracsïynol, yn ogystal ag ymgeiswyr sydd am weithio'n llawn amser.

Dylid cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddiogelu, gan sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc. Mae cyflogaeth yn amodol ar Ddatgeliad Manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chofrestrriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Noder y bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus dalu am y Datgeliad Manylach a chofrestrriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC).

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys ethnigrwydd, rhyw, trawsryweddol, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd, yn unol â'n polisi Cyfleoedd Cydraddoldeb. Mae pob campws yn hygyrch ac mae cyfleusterau megis ystafelloedd gweddi ar gael.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio a chadw pobl anabl, ac rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

Dyddiad Cau: 24.05.19

Cyfweliadau: 04.06.19

Safeguarding Statement:

Coleg Gwent is committed to safeguarding and promoting the welfare of children, young people and vulnerable adults and expects all staff and volunteers to share this commitment. We particularly welcome applications from under represented groups including ethnicity, gender, transgender, age, disability, sexual orientation or religion.